# Cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion

## Asesiadau Effaith

## Wedi'u diweddaru Chwefror 2024

**Cynnwys**


1. Cyflwyniad ........................................................................................................2
2. Asesiad Effaith Integredig ..................................................................................3
3. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb..................................................................25
4. Asesiad Effaith ar y Gymuned...........................................................................35
5. Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.......................................................................41

**Cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion**

**Asesiadau Effaith**

## 1. Cyflwyniad

Mae Cyngor Sir Powys wedi ymgynghori ar gynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion. Roedd y cynnig fel a ganlyn:

- Gwneud newid rheoledig i newid cyfrwng y dysgu yn Ysgol Bro Caereinion i gyfrwng Cymraeg.
- Byddai hyn yn cael ei gyflwyno'n raddol, flwyddyn wrth flwyddyn, gan ddechrau gyda Derbyn a Blwyddyn 7 ym mis Medi 2025.

Yn unol â pholisi'r Cyngor, cynhaliwyd Asesiad Effaith Integredig sy'n ymgorffori Deddf yr Iaith Gymraeg, Cydraddoldebau, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy, Cyfathrebu ac Ymgysylltu, Diogelu, Rhianta Corfforaethol, Cydlyniant Cymunedol a Rheoli Risg.

Yn ogystal, mae Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2018) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad Effaith ar y Gymuned mewn perthynas â'r holl gynigion ad-drefnu ysgolion. Ar gyfer cynigion sy'n effeithio ar addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, mae hefyd yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal Asesiad Effaith ar y Gymraeg.

Cynhaliwyd yr Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb yn seiliedig ar y wybodaeth PLASC ddiweddaraf. Mae'r Asesiad Effaith ar y Gymuned a'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg wedi'u cynnal gyda mewnbwn gan yr ysgol.

Mae’r asesiadau effaith wedi cael eu diweddaru i gynnwys unrhyw faterion a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Bydd y fersiynau wedi'u diweddaru yn cael eu hystyried gan Gabinet y cyngor wrth benderfynu sut i symud ymlaen mewn perthynas â'r cynnig hwn.

## 2. Asesiad Effaith Integredig

Mae'r Asesiad Effaith isod yn cynnwys Deddf yr Iaith Gymraeg, Cydraddoldeb, Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy, Cyfathrebu ac Ymgysylltu, Diogelu, Rhianta Corfforaethol, Cydlyniant Cymunedol a Rheoli Risg, cefnogi gwneud penderfyniadau effeithiol a sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth briodol.

| **Cynnig** |
| --- |
| Newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion i gyfrwng Cymraeg. |

**Amlinellol Crynodeb / Disgrifiad o'r Cynnig**

Mae’r Cyngor wedi ymgynghori ar y cynnig canlynol er mwyn newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion dros amser:

- I wneud newid rheoledig i newid cyfrwng y dysgu yn Ysgol Bro Caereinion o ddwy ffrwd i gyfrwng Cymraeg.
- Byddai hyn yn cael ei gyflwyno'n raddol, flwyddyn wrth flwyddyn, gan ddechrau gyda Derbyn a Blwyddyn 7 ym mis Medi 2025.

Byddai hyn yn golygu:

- Byddai'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg yn cael ei diddymu'n raddol o flwyddyn i flwyddyn, gan ddechrau gyda Derbyn a Blwyddyn 7 ym mis Medi 2025 – byddai'r disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg ac yn dod yn gwbl ddwyieithog h.y. yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Byddai cymorth Cymraeg ychwanegol yn cael ei ddarparu ochr yn ochr â'r newid e.e. darpariaeth Trochi Pontio, hyfforddiant Cymraeg i staff.

Pe bai hyn yn cael ei weithredu, byddai'r newid yn dechrau cael ei gyflwyno'n raddol o fis Medi 2025.

1. Rheoli Fersiynau (dylai gwasanaethau ystyried yr asesiad effaith yn gynnar yn y broses ddatblygu a gwerthuso'n barhaus)

| Fersiwn | Disgrifiad | Dyddiad |
| --- | --- | --- |
| 1 | Fersiwn gychwynnol i'w hystyried gan y Cabinet | 29/08/23 |
| 2 | Diwygiwyd yn dilyn cyfarfod y Cabinet i'w gynnwys fel rhan o’r ddogfennaeth ymgynghori | 27/09/23 |

| | | |
|---|---|---|
| 3 | Diwydiwyd wedi'r ymgynghoriad i'w hystyried gan y Cabinet | 28/02/24 |

2. Gofynion ymgynghori

| Gofyniad Ymgynghori | Dyddiad cau/neu gyfiawnhad yr ymgynghoriad am ddim ymgynghoriad |
|---|---|
| Angen ymgynghoriad cyhoeddus | Mae ymgynghoriad wedi'i gynnal yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion. |

3. Effaith ar Feysydd Gwasanaeth Eraill

| A oes gan y cynnig botensial i effeithio ar faes gwasanaeth arall? (Ydych chi wedi ystyried y goblygiadau ar Iechyd a Diogelwch a Rhianta Corfforaethol?) SICRHEWCH EICH BOD YN HYSBYSU / YMGYSYLLTU AG UNRHYW ARDALOEDD GWASANAETH YR EFFEITHIR ARNYNT CYN GYNTED Â PHOSIBL |
|---|
| Mae gan y cynnig y potensial i effeithio ar y gwasanaethau canlynol:<br>- Gwasanaethau Plant<br>- Gwasanaethau Digidol<br>- Addysg<br>- Cyllid<br>- Trawsnewid a Chyfathrebu<br>- Gweithlu a OD |
| **Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data** |
| A fyddai'r cynnig yn golygu prosesu manylion personol unigolion? Byddai<br>Ai Cyngor Sir Powys yw'r rheolwr data? Ie |

4. Lleoliadau Daearyddol

| Pa ardal(oedd) daearyddol fydd yn cael eu heffeithio gan y cynnig? (Dewiswch bawb sy'n gymwys) |
|---|

Byddai'r cynnig yn effeithio ar yr ardaloedd daearyddol canlynol:

- Gogledd Powys
- Llanfair Caereinion

5. Sut mae eich cynnig yn effeithio ar nodau llesiant Llywodraeth Cymru?

| Nod Llesiant | Sut mae'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? | EFFAITH<br>Dewiswch o'r gwymplen isod | Beth fydd yn cael ei wneud i gyfrannu'n well at effaith fwy cadarnhaol neu i liniaru unrhyw effeithiau negyddol? | EFFAITH AR ÔL LLINIARU<br>Dewiswch o'r gwymplen isod |
|---|---|---|---|---|
| **Cymru lewyrchus:**<br>Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod cyfyngiadau'r amgylchedd byd-eang ac felly'n defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn gymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir trwy sicrhau gwaith gweddus. | Y cynnig yw newid categori iaith yr ysgol yn raddol dros nifer o flynyddoedd, gan ddechrau gyda disgyblion yn y Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 7. Byddai darpariaeth Trochi Pontio yn cael ei darparu ochr yn ochr â'r newid, i alluogi disgyblion sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd i barhau i wneud hynny, felly ni ddylai fod angen cludiant ychwanegol. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai rhai disgyblion ddewis trosglwyddo i ysgolion cyfrwng Saesneg eraill, a allai arwain at drafnidiaeth ychwanegol ar y ffyrdd.<br><br>Rhagwelir y byddai'r cynnig yn arwain at well cyfleoedd cyflogaeth i holl ddisgyblion yr ardal yn y dyfodol, gan y byddai pob disgybl yn gwbl ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac felly'n gallu manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth sy'n gofyn am rugldeer yn y ddwy iaith. | Da | Ystyried yr effaith ar ddisgyblion sy'n cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Saesneg ar hyn o bryd wrth ystyried a ddylid bwrw ymlaen â gweithredu'r cynnig ai peidio. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Derbyniwyd sylwadau yn ystod yr ymgynghoriad a oedd yn cefnogi barn y Cyngor y byddai'r cynnig yn galluogi pob disgybl yn yr ardal i ddod yn ddwyieithog. Fodd bynnag, mynegwyd pryder hefyd am yr effaith ar sgiliau Saesneg disgyblion ac ar gyflawniad addysgol disgyblion sy'n trosglwyddo o ddarpariaeth cyfrwng Saesneg i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. | | | |
| **Cymru gydnerth:**<br><br>Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau gweithredol iach sy'n cefnogi gwytnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). | Byddai gweithredu'r cynnig yn galluogi'r ysgol i weithredu'n fwy effeithlon fel ysgol un ffrwd, gan wella ei gwydnwch economaidd. | Niwtral | | |
| **Cymru iachach:**<br><br>Cymdeithas lle sicrheir llesiant corfforol a meddyliol pobl a lle mae dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol yn cael eu deall.<br><br>**Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017:**<br><br>Mae Rhan 6 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gynnal asesiad | Yn y tymor byr, mae'n bosibl y gallai'r cynnig i newid categori iaith yr ysgol arwain at densiynau ac anghytundeb o fewn y gymuned leol, yn enwedig tra bod prosesau ymgynghori yn parhau. Gallai hyn gael effaith negyddol ar les pobl. Mae hefyd yn bosibl y gallai fod effaith ar les rhai disgyblion yn ystod y cyfnod pontio. Adlewyrchwyd hyn yn y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. | Niwtral | Y cynnig yw i gyflwyno'r newid yn raddol, er mwyn lleihau'r effaith ar ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd angen ystyried yr effaith ar ddisgyblion presennol wrth benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig ai peidio.<br><br>Mae'r cynnig yn cynnwys cymorth iaith Gymraeg ychwanegol i'w gyflwyno ochr yn ochr â'r newid yn y categori iaith e.e. Trochi, cymorth iaith Gymraeg ychwanegol. | Niwtral |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| o'r effaith ar iechyd i asesu effaith debygol gweithred neu benderfyniad arfaethedig ar iechyd corfforol neu feddyliol pobl Cymru. | Yn y pen draw, fodd bynnag, disgwylir y byddai'r tensiynau hyn yn lleihau, ac yn y tymor hwy wrth i'r newid yn y categori iaith gael ei weithredu, disgwylir y byddai'r cynnig yn helpu i wella cydlyniant cymunedol, gan y byddai holl ddisgyblion yr ardal yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg.<br><br>Codwyd pryderon yn ystod yr ymgynghoriad ar yr effaith ar les staff. Cydnabyddir bod unrhyw broses ad-drefnu ysgolion yn achosi cyfnod o ansicrwydd i'r rhai yr effeithir arnynt, gan gynnwys staff.<br><br>Yr unig benderfyniad a wnaed hyd yma oedd penderfyniad i gynnal ymgynghoriad ar gynnig i newid categori iaith yr ysgol fesul cam. Roedd staff yn gallu rhoi gwybod i'r Cyngor eu barn am y cynnig fel rhan o'r broses hon. Yn ogystal, cynhaliwyd cyfarfod ymgynghori gyda staff, a oedd yn rhoi cyfle pellach i staff roi gwybod i'r Cyngor am eu barn.<br><br>Mae AD wedi cyfarfod ag aelodau staff, ac mae cymorth hefyd ar gael drwy Raglen Cymorth i Weithwyr y Cyngor, 'Vivup'. | | Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â gweithredu'r cynnig, byddai angen cynnal ymgyrch hyrwyddo i gefnogi hyn, i godi ymwybyddiaeth am addysg cyfrwng Cymraeg a manteision dwyieithrwydd.<br><br>Hefyd, pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai angen gweithio gydag Ysgol Bro Caereinion ac ysgolion eraill yn y dalgylch i sicrhau bod disgyblion yn cael eu cefnogi gyda threfniadau trosglwyddo. Byddai hyn yn cynnwys darpariaeth Trochi ar gyfer y rhai sy'n dymuno cael mynediad iddo, yn ogystal â chymorth gyda threfniadau pontio i ysgolion eraill ar gyfer unrhyw ddisgyblion sy'n dymuno trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg mewn ysgolion eraill.<br><br>Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r broses, byddai cyfleoedd i drafodaethau unigol gydag aelodau staff am unrhyw effaith arnynt fel rhan o unrhyw brosesau Rheoli Newid, pe bai angen y prosesau hyn. | |
| **Cymru o gymunedau cydlynol:**<br><br>Cymunedau deniadol, hyfyw, diogel a chysylltiadau da. | Yn y tymor byr, mae'n bosibl y gallai'r cynnig i newid categori iaith yr ysgol arwain at densiynau ac anghytundeb o fewn y gymuned leol, yn enwedig tra bod prosesau ymgynghori yn parhau. Adlewyrchwyd hyn yn y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. | Niwtral | Bydd cymorth Cymraeg ychwanegol yn cael ei gyflwyno yn Ysgol Bro Caereinion ochr yn ochr ag unrhyw newid yng nghategori iaith e.e. Trochi, cefnogaeth Gymraeg ychwanegol.<br><br>Er y byddai hyn yn sicrhau y byddai disgyblion oed cynradd o'r tu allan i'r ardal yn gallu mynychu'r ysgol, | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Yn y pen draw fodd bynnag, disgwylir y byddai'r tensiynau hyn yn lleihau, ac yn y tymor hwy wrth i'r newid yn y categori iaith gael ei weithredu, disgwylir y byddai'r cynnig yn helpu i wella cydlyniant cymunedol, gan y byddai holl ddisgyblion yr ardal yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg.<br><br>Yn dilyn gweithredu'r cynnig, gallai fod effaith negyddol ar ddisgyblion a fydd yn symud i'r ardal o'r tu allan i'r ardal / y tu allan i Gymru. Yn benodol, gallai hyn olygu y byddai disgyblion oedran uwchradd sy'n symud i'r ardal yn mynychu darpariaeth cyfrwng Saesneg mewn lleoliadau eraill, na fyddai'n cefnogi eu hintegreiddio i'r gymuned.<br><br>Codwyd pryderon hefyd yn ystod y cyfnod ymgynghori am ddisgyblion yn Llanfair Caereinion yn gorfod mynychu ysgolion gwahanol pe baent yn dewis cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Saesneg a cholli cysylltiadau â'u cymuned. | | mae'n bosibl na fydd hyn yn addas ar gyfer disgyblion hŷn, oed uwchradd.<br><br>Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â gweithredu'r cynnig, byddai angen cynnal ymgyrch hyrwyddo i gefnogi hyn, i godi ymwybyddiaeth am addysg cyfrwng Cymraeg a manteision dwyieithrwydd. | Niwtral |
| **Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang:**<br><br>Cenedl sydd, wrth wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud y fath beth wneud cyfraniad cadarnhaol at les byd-eang. | Byddai'r cynnig yn sicrhau y byddai pob disgybl sy'n cael mynediad i Ysgol Bro Caereinion yn y dyfodol yn datblygu sgiliau dwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae bod yn gwbl ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg yn cyfrannu at les diwylliannol Cymru, a byddai'n galluogi disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau lleol, cenedlaethol a byd-eang trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. | Da | Er y cydnabyddir y gallai disgyblion glywed llai o Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, rhaid nodi ei bod yn ofynnol i bob ysgol yng Nghymru gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg fel rhan o'r Cwricwlwm newydd i Gymru, a byddai cyfle hefyd i ddysgu Cymraeg ail iaith yn yr ysgolion hyn. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Hawliau Dynol – mae'n ymwneud â bod yn rhagweithiol (gweler y canllawiau)**<br><br>**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**<br><br>Mae'r Confensiwn yn rhoi hawliau i bawb o dan 18 oed, yn cynnwys yr hawl i gael eu trin yn deg ac i gael eu hamddiffyn rhag gwahaniaethu; bod sefydliadau yn gweithredu er budd pennaf y plentyn; yr hawl i fywyd, goroesiad a datblygiad; a'r hawl i gael eu clywed. | Derbyniwyd sylwadau yn ystod yr ymgynghoriad a oedd yn cefnogi barn y Cyngor y byddai'r cynnig yn galluogi pob disgybl yn yr ardal i ddod yn ddwyieithog. Fodd bynnag, mynegwyd pryder hefyd am yr effaith ar ddisgyblion cyfrwng Saesneg pe baent yn penderfynu peidio aros yn Ysgol Bro Caereinion ar gyfer eu haddysg uwchradd ond yn hytrach yn dewis mynychu ysgol cyfrwng Saesneg arall gan y byddent yn clywed llai o Gymraeg a byddant yn cael llai o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg.<br><br>Rhagwelir y byddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y defnydd o adnoddau, gan y byddai'n galluogi'r ysgol i weithredu'n fwy effeithlon fel ysgol un ffrwd, a byddai'n galluogi adnoddau i ganolbwyntio ar ddarparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori, a oedd yn cynnwys ymgynghori â phlant a phobl ifanc y mae'r cynnig yn effeithio arnynt, gan sicrhau bod pawb sy'n cael eu heffeithio gan y cynlluniau wedi cael y cyfle i roi eu barn. | | | |

**Cymru o ddiwylliant bywiog a iaith Gymraeg ffyniannus:** Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn amddiffyn diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, a chwaraeon a hamdden.

*Yn cynnwys gofynion o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg*

| Nod Llesiant | Sut mae'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? | EFFAITH<br>Dewiswch o'r gwymplen isod | Beth fydd yn cael ei wneud i gyfrannu'n well at effaith fwy cadarnhaol neu i liniaru unrhyw effeithiau negyddol? | EFFAITH AR ÔL LLINIARU<br>Dewiswch o'r gwymplen isod |
|---|---|---|---|---|
| ***Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg*** | Y cynnig yw newid categori iaith yr ysgol dros amser, fel y byddai pob disgybl yn y pen draw yn cael ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn dod yn gwbl ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg.<br><br>Yn ogystal â sicrhau bod pob disgybl yn gwbl ddwyieithog, byddai hyn yn sicrhau ethos cwbl Gymraeg, gan arwain at well cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg drwy'r ysgol, a mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau a chyfleoedd allgyrsiol Cymraeg.<br><br>Byddai gweithredu'r cynnig yn cryfhau ac yn ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy wella ehangder yr opsiynau cyfrwng Cymraeg ar bob cam allweddol, a sicrhau pontio a chynnydd cryfach i ddisgyblion. O ganlyniad, byddai disgyblion yn datblygu'n ddisgyblion cwbl ddwyieithog a fyddai mewn sefyllfa well i gefnogi'r anghenion economaidd a chymunedol lleol a chenedlaethol.<br><br>Yn ogystal â chwricwlwm cyfrwng Cymraeg llawn, mae'n debygol y byddai newid cyfrwng iaith yr ysgol i gyfrwng Cymraeg yn arwain at fwy o gyfleoedd i ddisgyblion gael mynediad i | Da iawn | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | weithgareddau Cymraeg, gan gynnwys gweithgareddau a ddarperir gan yr ysgol a gweithgareddau a ddarperir gan sefydliadau eraill e.e. Menter Maldwyn, yr Urdd.<br><br>Byddai gweithredu'r cynnig yn codi proffil addysg Gymraeg yn yr ardal, ac yn creu mwy o siaradwyr Cymraeg rhugl a fydd yn gallu defnyddio'r iaith o fewn y gymuned, gan gyfrannu felly at darged Llywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.<br><br>Derbyniwyd sylwadau yn ystod yr ymgynghoriad a oedd yn cefnogi barn y Cyngor y byddai'r cynnig yn galluogi pob disgybl yn yr ardal i ddod yn ddwyieithog. Fodd bynnag, mynegwyd pryder hefyd am yr effaith ar ddisgyblion cyfrwng Saesneg pe baent yn penderfynu peidio aros yn Ysgol Bro Caereinion ar gyfer eu haddysg uwchradd ond yn hytrach yn dewis mynychu ysgol cyfrwng Saesneg arall gan y byddent yn clywed llai o Gymraeg a byddant yn cael llai o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg. | | Er y cydnabyddir y gallai disgyblion glywed llai o Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, rhaid nodi ei bod yn ofynnol i bob ysgol yng Nghymru gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg fel rhan o'r Cwricwlwm newydd i Gymru, a byddai cyfle hefyd i ddysgu Cymraeg ail iaith yn yr ysgolion hyn. | |
| ***Cyfleoedd i hybu'r Gymraeg*** | Y cynnig yw newid categori iaith yr ysgol dros amser, fel y byddai pob disgybl yn y pen draw yn cael ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn dod yn gwbl ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg. Byddai hyn yn arwain at well cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn yr ysgol a thu hwnt, er enghraifft drwy'r 'Siartr Iaith' a thrwy gyfleoedd gwell i ddarparu gweithgareddau clwstwr Cymraeg. | Da iawn | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Yn ogystal â chwricwlwm cyfrwng Cymraeg llawn, mae'n debygol y byddai newid cyfrwng iaith yr ysgol i gyfrwng Cymraeg hefyd yn arwain at fwy o gyfleoedd i ddisgyblion gael mynediad i weithgareddau Cymraeg, gan gynnwys gweithgareddau a ddarperir gan yr ysgol a gweithgareddau a ddarperir gan sefydliadau eraill e.e. Menter Maldwyn, yr Urdd.<br><br>Derbyniwyd sylwadau yn ystod yr ymgynghoriad a oedd yn cefnogi barn y Cyngor y byddai'r cynnig yn galluogi pob disgybl yn yr ardal i ddod yn ddwyieithog. Fodd bynnag, mynegwyd pryder hefyd am yr effaith ar ddisgyblion cyfrwng Saesneg pe baent yn penderfynu peidio aros yn Ysgol Bro Caereinion ar gyfer eu haddysg uwchradd ond yn hytrach yn dewis mynychu ysgol cyfrwng Saesneg arall gan y byddent yn clywed llai o Gymraeg a byddant yn cael llai o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg. | | | |
| ***Mae pobl yn cael eu hannog i wneud chwaraeon, celf a hamdden.*** | Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn effeithio ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon, celf a hamdden. Fodd bynnag, derbyniwyd sylwadau yn ystod yr ymgynghoriad y byddai rhai disgyblion yn dewis symud i ysgol cyfrwng Saesneg arall ar gyfer darpariaeth uwchradd yn hytrach na dewis aros yn Ysgol Bro Caereinion. Efallai y bydd effaith ar allu'r disgyblion hyn i gael mynediad at weithgareddau ar ôl ysgol/allgyrsiol gan y byddent yn mynychu ysgol sydd ymhellach i ffwrdd o'u cartref. | Niwtral | Byddai cyfle o hyd i gael mynediad at weithgareddau chwaraeon, celf a hamdden yn y gymuned leol er efallai na fyddant yn mynychu'r ysgol yn yr ardal. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

**Cymru fwy cyfartal:** Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol).

*Yn ymgorffori gofynion o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a'r ddyletswydd economaidd gymdeithasol (2020).*

| Nod Llesiant | Sut mae'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? | EFFAITH<br><br>Dewiswch o'r gwymplen isod | Beth fydd yn cael ei wneud i gyfrannu'n well at effaith fwy cadarnhaol neu i liniaru unrhyw effeithiau negyddol? | EFFAITH AR ÔL LLINIARU<br><br>Dewiswch o'r gwymplen isod |
|---|---|---|---|---|
| ***Oed*** | Byddai'r cynnig yn darparu gwell cyfleoedd i bob disgybl yn Ysgol Bro Caereinion beth bynnag yw eu hoedran, gan gynnwys y cyfle i bob disgybl ddod yn gwbl ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg.<br><br>I ddechrau, byddai'r cynnig yn effeithio'n bennaf ar ddisgyblion iau, gan mai'r bwriad yw y byddai'r newid yn cael ei gyflwyno'n raddol, gan ddechrau gyda disgyblion oed derbyn. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, mynegwyd pryder penodol am ddisgyblion sy'n cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Saesneg ar hyn o bryd yn y cyfnod cynradd, a fyddai'n cael eu heffeithio'n arbennig gan y cynnig. | Niwtral | Yr effaith ar ddisgyblion sy'n cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Saesneg yn y cyfnod cynradd i gael ei ystyried wrth benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig ai peidio. | |
| ***Anabledd*** | Byddai'r cynnig yn darparu gwell cyfleoedd i bob disgybl yn Ysgol Bro Caereinion, gan gynnwys unrhyw ddisgyblion ag anableddau. Byddai hyn yn | Niwtral | Yr ysgol i ddarparu gwell cefnogaeth i ddisgyblion ag ADY yn ôl yr angen er mwyn diwallu eu hanghenion. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | cynnwys y cyfle i bob disgybl ddod yn gwbl ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg.<br><br>Efallai y bydd pryderon ynghylch effaith y cynnig ar ddisgyblion ag ADY.<br><br>Codwyd nifer o bryderon am yr effaith ar ddisgyblion ag ADY yn yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad. | | Ar draws Cymru mae yna blant ag AAA/ADY sy'n cael eu haddysg yn llwyddiannus mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, boed yn dod o gartrefi Cymraeg, cartrefi Saesneg eu hiaith neu gartrefi lle siaredir ieithoedd eraill. Gall Ysgol Bro Caereinion, ynghyd ag ysgolion eraill, elwa o ddysgu o arfer gorau sydd eisoes yn bodoli mewn ysgolion eraill.<br><br>Mae strategaeth AAA/ADY Powys, y cytunwyd arni gan y Cabinet ym mis Tachwedd 2021, wedi ymrwymo i wella'r ddarpariaeth ar gyfer pob disgybl ag AAA/ADY, beth bynnag fo'u hiaith gyntaf. Mae hyn yn cynnwys disgyblion y gellir eu haddysgu mewn dosbarthiadau prif ffrwd yn ogystal â disgyblion sydd angen darpariaeth arbenigol. Fel rhan o'r strategaeth, mae'r awdurdod lleol yn datblygu ac yn gwella ei ystod o ddarpariaeth arbenigol, gan gynnwys canolfannau arbenigol a lloerennau ysgolion arbennig, er mwyn sicrhau y gellir diwallu anghenion pob disgybl ym Mhowys yn effeithiol.<br><br>Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn adolygu'r strategaeth i gryfhau'r elfennau hynny sydd â'r angen fwyaf.<br><br>Ni fydd yr ysgol yn newid o gyfrwng Cymraeg i gyfrwng Saesneg dros nos. Bydd cyfnod pontio i'r disgyblion hynny sydd eisoes yn yr ysgol. Yn ystod y cyfnod pontio hwn, bydd disgyblion ag AAA/ADY sydd ar hyn o bryd yn mynychu darpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg ym Mro Caereinion yn gallu cael mynediad at y ddarpariaeth hon drwy gydol y cyfnod cynradd. Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â gweithredu'r cynnig, byddai'n gallu cael mynediad at ddarpariaeth Trochi gyda'r nod o drosglwyddo i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, neu byddent yn gallu | Niwtral |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Saesneg mewn ysgol amgen.<br><br>Er mai nod y Cyngor yw bod y mwyafrif helaeth o ddisgyblion yn parhau i fynychu Ysgol Bro Caereinion, cydnabyddir efallai na fydd rhai disgyblion sy'n mynychu darpariaeth cyfrwng Saesneg ar hyn o bryd yn dymuno trosglwyddo i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac y gallai hyn fod yn arbennig o wir ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.<br><br>Os aiff y cynnig yn ei flaen, byddai disgyblion ag AAA/ADY yn Llanfair Caereinion yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o ddechrau eu hamser yn yr ysgol. Rhan allweddol o'r strategaeth yw bod gan ddisgyblion ag AAA/ADY yr hawl i gael eu haddysgu mewn ysgolion prif ffrwd ochr yn ochr â'u cyfoedion.<br><br>O dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, bydd gan ddisgyblion ag ADY gynlluniau datblygu unigol (CDU) a fydd yn nodi eu hanghenion a'r cymorth y byddant yn ei dderbyn. Gallai hyn gynnwys cefnogaeth gan staff yr ysgol yn ogystal â chymorth arbenigol gan yr awdurdod lleol. Lle bo'n briodol, gellir cynnal ymyriadau trwy gyfrwng y Saesneg. Bydd hyn yn cael ei bennu yn unol ag anghenion y disgybl unigol. Yn yr un modd, os bydd disgybl yn cyrraedd yr ysgol heb unrhyw Saesneg, gellir darparu lefel o gefnogaeth yn ei iaith ei hun. | |
| ***Ailbennu rhywedd*** | Dim effaith | Niwtral | | |
| ***Priodas neu bartneriaeth sifil*** | Dim effaith | Niwtral | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ***Ras*** | Byddai'r cynnig yn darparu gwell cyfleoedd i bob disgybl yn Ysgol Bro Caereinion, waeth beth fo'u hil. Byddai hyn yn cynnwys y cyfle i bob disgybl ddod yn gwbl ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg. | Niwtral | | |
| ***Crefydd neu gred*** | Byddai'r cynnig yn darparu gwell cyfleoedd i bob disgybl yn Ysgol Bro Caereinion, waeth beth fo'u crefydd neu gred. Byddai hyn yn cynnwys y cyfle i bob disgybl ddod yn gwbl ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg. | Niwtral | | |
| ***Rhyw*** | Byddai'r cynnig yn darparu gwell cyfleoedd i bob disgybl yn Ysgol Bro Caereinion, waeth beth fo'u rhyw. Byddai hyn yn cynnwys y cyfle i bob disgybl ddod yn gwbl ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg. | Niwtral | | |
| ***Cyfeiriadedd rhywiol*** | Byddai'r cynnig yn darparu gwell cyfleoedd i bob disgybl yn Ysgol Bro Caereinion, waeth beth yw eu cyfeiriadedd rhywiol. Byddai hyn yn cynnwys y cyfle i bob disgybl ddod yn gwbl ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg. | Niwtral | | |
| ***Beichiogrwydd a mamolaeth*** | Dim effaith | Niwtral | | |
| ***Dyletswydd economaidd-gymdeithasol*** | Byddai'r cynnig yn darparu gwell cyfleoedd i bob disgybl yn Ysgol Bro Caereinion, gan gynnwys unrhyw ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd. Byddai hyn yn cynnwys y cyfle i bob disgybl ddod yn gwbl ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg. | Niwtral | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Rhagwelir y byddai'r cynnig yn arwain at well cyfleoedd cyflogaeth i holl ddisgyblion yr ardal yn y dyfodol, gan y byddai pob disgybl yn gwbl ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac felly'n gallu manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth sy'n gofyn am sgiliau Cymraeg.<br><br>Mynegwyd pryderon yn ystod yr ymgynghoriad y byddai rhai rhieni yn dewis i'w plant fynychu ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg eraill yn hytrach nag aros yn Ysgol Bro Caereinion pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen. Efallai y bydd effaith ar y teuluoedd hyn pe na baent yn gallu cael cludiant o'r cartref i'r ysgol i ysgolion eraill oherwydd nad ydynt yn ysgol agosaf iddynt ac felly byddent yn dibynnu ar eu dulliau teithio eu hunain ar eu cost eu hunain. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn gobeithio y bydd pob disgybl yn aros yn Ysgol Bro Caereinion ac yn gallu elwa o addysg Gymraeg a dod yn gwbl ddwyieithog. | | Cabinet i ystyried materion trafnidiaeth fel rhan o ystyriaeth gyffredinol o'r cynnig. | Niwtral |

| **Ffynhonnell Tystiolaeth Amlinellol i gefnogi dyfarniadau** |
|---|
| Ymatebion i'r ymgynghoriad, adroddiad ymgynghori |

5. Sut mae eich cynnig yn effeithio ar egwyddorion arweiniol allweddol eraill y cyngor?

**Egwyddor Datblygu Cynaliadwy (5 ffordd o weithio)**

| **Egwyddor** | **Sut mae'r cynnig yn effeithio ar yr egwyddor hon?** | **<u>EFFAITH</u>**<br>**Dewiswch o'r** | **Beth fydd yn cael ei wneud i gyfrannu'n well at effaith fwy cadarnhaol neu i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?** | **<u>EFFAITH</u>**<br>**<u>AR ÔL LLINIARU</u>** |
|---|---|---|---|---|

| | | gwymplen isod | | Dewiswch o'r gwymplen isod |
|---|---|---|---|---|
| ***Tymor hir:*** *Edrych i'r tymor hir fel nad ydym yn cyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.* | Byddai'r cynnig yn darparu model mwy cynaliadwy o ddarparu addysg yn Llanfair Caereinion, a fyddai'n galluogi'r ysgol i weithredu'n fwy effeithlon trwy beidio â gorfod dyblygu'r ddarpariaeth.<br><br>Fel ysgol un iaith, ni fyddai angen i'r ysgol ddyblygu'r ddarpariaeth mewn dwy iaith, a fyddai hefyd yn sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau yn y tymor hir.<br><br>Codwyd pryderon yn ystod y cyfnod ymgynghori ynghylch yr effaith bosibl ar niferoedd disgyblion yn yr ysgol yn y dyfodol pe na bai darpariaeth cyfrwng Saesneg yn yr ysgol, ac y byddai hyn yn effeithio ar hyfywedd yr ysgol yn y tymor hwy. | Da | Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â gweithredu'r cynnig, byddai angen cynnal ymgyrch hyrwyddo i gefnogi hyn, i godi ymwybyddiaeth am addysg cyfrwng Cymraeg a manteision dwyieithrwydd. Y bwriad yw bod pob disgybl mewn addysg Gymraeg o fewn y dalgylch yn trosglwyddo i Ysgol Bro Caereinion ar gyfer eu haddysg uwchradd - nid yw hyn yn wir ar hyn o bryd. Disgwylir hefyd y byddai cael llwybrau dilyniant clir o'r blynyddoedd cynnar hyd at ddarpariaeth uwchradd yn rhoi mwy o eglurder i rieni gan arwain at fwy o rieni yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg. | |
| ***Cydweithio:*** *Gweithio gydag eraill mewn ffordd gydweithredol i ddod o hyd i atebion cynaliadwy a rennir.* | Pe bai'r Cabinet yn cytuno i weithredu'r cynnig, byddai'r Cyngor yn gweithio ar y cyd â'r ysgol, rhanddeiliaid allweddol sy'n gysylltiedig â'r ysgol, a phartneriaid allanol fel Mudiad Meithrin, Menter Maldwyn, yr Urdd i drosglwyddo i'r model newydd. | Niwtral | | |
| ***Cynnwys (gan gynnwys Cyfathrebu ac Ymgysylltu):*** *Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt gan gynnwys:* | Mae ymgysylltu â chynrychiolwyr yr ysgol wedi digwydd wrth ddatblygu'r cynnig hwn.<br><br>Cynhaliwyd ymgynghoriad llawn gyda rhanddeiliaid yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, a roddod gyfle i bawb oedd â diddordeb | Da | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ***Gofalwyr di-dâl:***<br><br>*Sicrhau bod safbwyntiau gofalwyr di-dâl yn cael eu ceisio a'u hystyried* | roi eu barn. Bydd canfyddiadau'r ymarfer hwn yn cael eu hadrodd i'r Cabinet a byddent yn cael eu hystyried wrth benderfynu sut i fwrw ymlaen.<br><br>Rhoddwyd cyfle i'r holl randdeiliaid roi eu barn fel rhan o'r broses hon, yn cynnwys unrhyw ofalwyr di-dâl yn yr ardal. | | | |
| ***Atal****: Deall achosion sylfaenol materion i'w hatal rhag digwydd, gan gynnwys:*<br><br>***Diogelu:***<br><br>*Atal ac ymateb i gam-drin ac esgeuluso plant, pobl ifanc ac oedolion ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol na allant amddiffyn eu hunain.* | Byddai'r cynnig yn darparu model mwy cynaliadwy o ddarparu addysg yn Llanfair Caereinion, a fyddai'n galluogi'r ysgol i weithredu'n fwy effeithlon trwy beidio â gorfod dyblygu'r ddarpariaeth.<br><br>Ni ragwelir y byddai effaith ar drefniadau diogelu. | Da | | |
| ***Integreiddio:*** *Mabwysiadu dull integredig fel bod cyrff cyhoeddus yn edrych ar yr holl nodau llesiant wrth benderfynu ar eu hamcanion llesiant.* | Byddai dull integredig yn cael ei gymryd er mwyn gweithredu'r cynnig, a fyddai'n cynnwys meysydd gwasanaeth eraill y Cyngor a phartneriaid eraill yn ôl yr angen. | Niwtral | | |
| **Gweithlu Cyngor Sir Powys:**<br><br>Pa effaith fyddai'r newid hwn yn ei gael ar y Gweithlu? | Byddai gweithredu'r ffordd orau ymlaen yn cael effaith gadarnhaol ar staff cyfrwng Cymraeg drwy eu galluogi i weithio mewn amgylchedd cwbl Gymraeg.<br><br>Wrth i'r newid yn y categori iaith gael ei gyflwyno'n raddol ar draws yr ysgol, efallai y bydd effaith ar staff ysgolion na allant weithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Derbyniwyd sylwadau yn codi pryder am yr effaith ar staff nad oedd yn | Niwtral | Mae nifer sylweddol o staff yn Ysgol Bro Caereinion yn ddwyieithog ac ar hyn o bryd yn addysgu ac yn gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Fodd bynnag, mae nifer o staff addysgu a chymorth ar draws y safleoedd cynradd ac uwchradd sydd ar hyn o bryd yn gweithio yn y ffrwd Saesneg yn unig neu'n gweithio'n bennaf trwy gyfrwng y Saesneg.<br><br>Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai awdit yn cael ei wneud gyda'r holl staff i ddeall eu lefelau iaith | Niwtral |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y cyfnod ymgynghori.<br><br>Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, Cymraeg fyddai prif iaith yr ysgol. Rhagwelir y byddai hyn yn cefnogi datblygu ethos cwbl Gymreig ar draws yr ysgol.<br><br>Gall gweithredu'r cynnig gael effaith ychwanegol ar wasanaethau staffio'r Cyngor megis Gwasanaethau Plant, Arlwyo, Cyflogres, ADY gan y byddai disgwyl i wasanaethau gael eu darparu yn Gymraeg. Byddai hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i staff y Cyngor ddefnyddio'r Gymraeg. | | Gymraeg presennol ac i flaenoriaethu staff i'w cefnogi i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.<br><br>Mae'r cynnig i gyflwyno'r newid fesul cam yn rhoi amser i staff fynychu cyrsiau priodol i gefnogi eu datblygiad yn y maes hwn. Byddai Adnoddau Dynol yn rhan o gefnogi ymgynghori â phob aelod o staff ac i gefnogi'r broses bontio i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Lle nad yw hyn yn bosibl, byddai'r broses o reoli newid yn cefnogi staff i chwilio am gyfleoedd cyflogaeth neu adleoli eraill. | |
| **Cyflog:** Sut fyddai hyn yn effeithio ar gyflog, unrhyw daliadau goramser/ychwanegol ac ati? A yw hyn yn effeithio ar unrhyw grŵp penodol o weithwyr? E.e. gweithlu gwrywaidd / benywaidd yn bennaf. A yw'r cynnig hwn yn cydymffurfio â Thelerau ac Amodau Statws Sengl y Cyngor? | Mae'r cynnig yn cydymffurfio â Thelerau ac Amodau Statws Sengl Powys CC. | Niwtral | | |
| **Effaith ar y Gymraeg ar staff** | Byddai gweithredu'r ffordd orau ymlaen yn cael effaith gadarnhaol ar staff cyfrwng Cymraeg drwy eu galluogi i weithio mewn amgylchedd cwbl Gymraeg.<br><br>Gan fod y newid yn y categori iaith yn cael ei gyflwyno'n raddol ar draws yr ysgol, efallai y bydd effaith ar staff ysgolion na allant weithio trwy | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | gyfrwng y Gymraeg. Derbyniwyd sylwadau yn codi pryder am yr effaith ar staff nad oedd yn gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y cyfnod ymgynghori.<br><br>Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, Cymraeg fyddai prif iaith yr ysgol. Rhagwelir y byddai hyn yn cefnogi datblygu ethos cwbl Gymreig ar draws yr ysgol.<br><br>Gall gweithredu'r cynnig gael effaith ychwanegol ar wasanaethau staffio'r Cyngor megis Gwasanaethau Plant, Arlwyo, Cyflogres, ADY gan y byddai disgwyl i wasanaethau gael eu darparu yn Gymraeg. Byddai hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i staff y Cyngor ddefnyddio'r Gymraeg. | Da | | |
| **Prentisiaethau:** a yw'r newid hwn yn cael effaith negyddol neu'n gadarnhaol ar brentisiaethau o fewn y gwasanaeth? | Dim effaith | Niwtral | | |

| **Ffynhonnell Tystiolaeth Amlinellol i gefnogi dyfarniadau** |
|---|
| Ymatebion i'r ymgynghoriad, adroddiad ymgynghori |

6. Beth yw effaith y cynnig hwn ar ein cymunedau?

| **Cymunedau** | **Sut mae'r cynnig yn effeithio ar drigolion a'r gymuned?** | **EFFAITH**<br><br>**Gweler diffiniadau** | **Beth fydd yn cael ei wneud i gyfrannu'n well at effaith fwy** | **EFFAITH AR ÔL LLINIARU**<br><br>**Gweler diffiniadau** | **Ffynhonnell Tystiolaeth** |
|---|---|---|---|---|---|

| | | effaith mewn dogfen ganllawiau | cadarnhaol neu i liniaru unrhyw effeithiau negyddol? | effaith mewn dogfen ganllawiau | Amlinellol i gefnogi dyfarniad |
|---|---|---|---|---|---|
| Llanfair Caereinion | Yn y tymor byr, mae'n bosibl y gallai'r cynnig i newid categori iaith yr ysgol arwain at densiynau ac anghytundeb o fewn y gymuned leol, yn enwedig tra bod prosesau ymgynghori yn parhau. Adlewyrchwyd hyn yn y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori.<br><br>Yn y pen draw, fodd bynnag, disgwylir y byddai'r tensiynau hyn yn lleihau, ac yn y tymor hwy wrth i'r newid yn y categori iaith gael ei weithredu, disgwylir y byddai'r cynnig yn helpu i wella cydlyniant cymunedol, gan y byddai holl ddisgyblion yr ardal yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg.<br><br>Yn dilyn gweithredu'r cynnig, gallai fod effaith negyddol ar ddisgyblion yn symud i'r ardal o'r tu allan i'r ardal / y tu allan i Gymru. Yn benodol, gallai hyn olygu y byddai disgyblion oedran uwchradd sy'n symud i'r ardal yn mynychu darpariaeth cyfrwng Saesneg mewn lleoliadau amgen, na fyddai'n cefnogi eu hintegreiddio i'r gymuned. Codwyd pryderon yn ystod y cyfnod ymgynghori am ddisgyblion o Lanfair Caereinion yn gorfod mynychu ysgolion gwahanol pe baent yn dewis cael | Cymedrol | Mae'r cynnig yn cynnwys cymorth iaith Gymraeg ychwanegol i'w gyflwyno ochr yn ochr â'r newid yn y categori iaith e.e. Trochi, cymorth iaith Gymraeg ychwanegol.<br><br>Er y byddai hyn yn sicrhau y byddai disgyblion oed cynradd o'r tu allan i'r ardal yn gallu mynychu'r ysgol, mae'n bosibl na fydd hyn yn addas ar gyfer disgyblion hŷn, oed uwchradd.<br><br>Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â gweithredu'r cynnig, byddai angen cynnal ymgyrch hyrwyddo i gefnogi hyn, i godi ymwybyddiaeth am addysg cyfrwng Cymraeg a manteision dwyieithrwydd. | Mân | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Saesneg. | | | | |

7. Beth yw'r risgiau i ddarparu gwasanaethau neu'r cyngor ar ôl gweithredu'r cynnig hwn?

| Risg wedi'i nodi | Sgôr Risg Cynhenid<br>Effaith X Tebygolrwydd (Gweler y Matrics Risg yn y ddogfen ganllaw) | Lliniaru | Sgôr Risg Gweddilliol<br>Effaith X Tebygolrwydd (Gweler y Matrics Risg yn y ddogfen ganllaw) |
|---|---|---|---|
| Risg y gallai niferoedd disgyblion Ysgol Bro Caereinion leihau os yw rhieni'n dewis peidio anfon eu plant i Ysgol Bro Caereinion pe byddai'n well ganddynt ddarpariaeth cyfrwng Saesneg, a allai gael effaith ar gyllideb yr ysgol a chynyddu lleoedd gwag. | Canolig | Mae angen ymgyrch hyrwyddo i helpu rhieni i ddeall manteision addysg ddwyieithog, a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt e.e. Trochi | Isel |

8. Crynodeb cyffredinol a Dyfarniad o'r Asesiad Effaith hwn?

| |
|---|
| Mae'r asesiad effaith drafft yn dangos bod effaith y cynnig yn gadarnhaol yn gyffredinol. Yn y pen draw, byddai'r cynnig yn darparu model mwy cynaliadwy ar gyfer darparu addysg yn Ysgol Bro Caereinion, gan sicrhau bod pob disgybl yn gwbl ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg pan fyddant yn gadael yr ysgol. Y cynnig yw newid categori iaith yr ysgol dros amser, a fyddai'n lleihau'r effaith ar ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Bro Caereinion ar hyn o bryd, ond byddai hefyd yn sicrhau, yn y pen draw, y byddai pob disgybl yn cael ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac y byddai'n dod yn gwbl ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg. Byddai hyn yn arwain at well cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn yr ysgol ac o fewn y gymuned a byddai'n rhoi sgiliau dwyieithog i'r disgyblion hynny eu cymryd i'r gweithle. Cydnabyddir y byddai effaith ar ddisgyblion sydd ar hyn o bryd yn mynychu darpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg yn nalgylch Ysgol Bro Caereinion oherwydd na fyddant yn gallu cael mynediad i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg yn Ysgol Bro Caereinion. Codwyd pryderon am yr effaith ar y disgyblion hyn yn ystod y cyfnod ymgynghori. Byddai cefnogaeth ychwanegol fel Trochi Pontio ar gael i ddisgyblion a fyddai'n cael eu heffeithio pe byddent yn dymuno parhau â'u haddysg yn Ysgol Bro Caereinion, ond bydd angen ystyried yr effaith ar y disgyblion hyn yn benodol wrth benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â gweithredu'r cynnig ai peidio. |

9. A oes tystiolaeth ychwanegol i gefnogi'r Asesiad Effaith (IA)?

| Pa dystiolaeth a data ychwanegol sydd wedi llywio datblygiad eich cynnig? |
|---|
| Ymatebion i'r ymgynghoriad, adroddiad ymgynghori |

10. Trefniadau monitro parhaus?

| |
|---|
| **Pa drefniadau fydd yn cael eu rhoi ar waith i fonitro'r effaith dros amser?** |
| Bydd y Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Addysg yn parhau i fonitro effaith dros amser. |
| **Nodwch pryd y bydd yr Asesiad Effaith hwn yn cael ei adolygu.** |
| Bydd yr asesiad effaith hwn yn cael ei adolygu ar bob cam o'r broses |

## 3. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

# Cyngor Sir Powys

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA)

| | |
|---|---|
| **Cynnig** | Newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion |
| **Ardal Gwasanaeth** | Gwasanaeth Ysgolion |
| **Dyddiad yr Asesiad** | Medi 2023, diweddarwyd Chwefror 2024 |

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau sector cyhoeddus wrth arfer eu swyddogaethau, roi sylw dyledus i'r 'ddyletswydd gyffredinol' ganlynol:

**(a) dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu o dan y Ddeddf hon;**
**(b) hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu;**
**(c) meithrin perthynas dda rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.**

*Mae'r nodweddion gwarchodedig yn cynnwys: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, priodas a phartneriaeth sifil, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae'r asesiad hwn hefyd yn cynnwys ystyriaeth o effaith ar bobl a chymunedau y mae eu dewis iaith yn Gymraeg.*

Mae'r rheoliadau penodol ar gyfer Cymru [Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011] yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y sector cyhoeddus fonitro polisi ac arferion perthnasol ac yna asesu ac adrodd ar yr effaith yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata a thystiolaeth berthnasol.

## 1. NOD neu BWRPAS

**Disgrifiwch yn gryno nod neu bwrpas y cynnig newid sy'n cael ei asesu.**

Mae Cyngor Sir Powys yn ymgynghori ar gynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion. Mae'r cynnig fel a ganlyn:

- Gwneud newid rheoledig i newid cyfrwng y dysgu yn Ysgol Bro Caereinion i gyfrwng Cymraeg.
- Byddai hyn yn cael ei gyflwyno'n raddol, flwyddyn wrth flwyddyn, gan ddechrau gyda Derbyn a Blwyddyn 7 ym mis Medi 2025.

## 2. AMCANION

| **Nodwch amcanion busnes cyfredol y cynnig newid.**<br><br>Mae'r Cyngor yn cynnig newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion. Byddai hyn yn golygu y byddai darpariaeth cyfrwng Saesneg yn yr ysgol yn cael ei diddymu'n raddol o flwyddyn i flwyddyn, gan ddechrau gyda Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 7 ym mis Medi 2025. Yn y pen draw, byddai holl ddisgyblion yr ysgol yn mynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, gan sicrhau y byddai disgyblion yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg. Byddai cymorth Cymraeg ychwanegol yn cael ei ddarparu ochr yn ochr â'r newid e.e. darpariaeth Trochi, hyfforddiant Cymraeg i staff. |
|---|

## 3. MANTEISION A CHANLYNIADAU

**i) Beth yw'r manteision neu ganlyniadau arfaethedig y cynnig newid?**

Manteision y cynnig yw:

- Galluogi'r ysgol i weithredu'n fwy effeithlon
- Gellid cynnig mwy o gyfleoedd drwy gyfrwng y Gymraeg
- Cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y tymor hwy
- Byddai'n darparu mynediad i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg dynodedig
- Cyfle i ddenu mwy o ddisgyblion o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal
- Yn bodloni Strategaeth y Cyngor ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys
- Byddai'n bodloni dyheadau CSCA y Cyngor
- Arbedion ariannol posibl i'r awdurdod
- Byddai'n byrhau'r cyfnod pontio i fodel cyflenwi newydd o'i gymharu â rhai opsiynau eraill
- Effaith gyfyngedig ar ddisgyblion sy'n cael mynediad i addysg cyfrwng Saesneg yn yr ysgol ar hyn o bryd – byddai disgyblion presennol yn gallu parhau i gael mynediad at y ddarpariaeth hon drwy gydol y cyfnod cynradd neu uwchradd, yn dibynnu ar ba grŵp blwyddyn y maent ynddo
- Galluogi'r ysgol i weithredu'n fwy effeithlon yn gyflymach
- Yn caniatáu amser i unrhyw ddatblygiad staff a dysgu proffesiynol angenrheidiol ddigwydd i gefnogi'r newid
- Byddai'n sicrhau bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg dynodedig ar gael yn gyflymach, ac felly'n bodloni'r dyhead yn CSCA y Cyngor

## 4. PERTHNASEDD CORFFORAETHOL

| **Sut mae'r cynnig newid hwn yn ymwneud â'r Cynllun Cydraddoldeb Corfforaethol a Strategol?** |
|---|
| Mae'r cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion yn cyd-fynd â'r Rhaglen Trawsnewid Addysg ac mae'n rhan o'r Portffolio Trawsnewid, a sefydlwyd i gefnogi'r blaenoriaethau a'r amcanion a amlinellir yn y Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Cydraddoldebau Strategol. Mae'r cynnig hefyd yn unol â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor. |

## 5. DATA A DDEFNYDDIWYD

**5.1. Pa ddata sydd wedi cael ei ddefnyddio i gynnal yr asesiad hwn?**
**Ticiwch / cysgodwch y blychau fel y bo'n briodol.**

| | |
|---|---|
| Proffilio defnyddwyr gwasanaeth, gan ddarparu dadansoddiad o bwy sy'n defnyddio'r gwasanaeth gan y nodweddion gwarchodedig. | ✓ |
| Cyfraddau bodlonrwydd defnyddwyr gwasanaeth, wedi'u torri i lawr gan y nodweddion gwarchodedig. | |
| Data ansoddol (wedi'i ddadansoddi yn erbyn y nodweddion gwarchodedig) sy'n darparu tystiolaeth am y gwasanaethau presennol y mae defnyddwyr yn eu profi wrth ddefnyddio'r gwasanaeth. | |
| Data ansoddol a gasglwyd gan y rhai nad ydynt yn defnyddio'r gwasanaeth ar hyn o bryd. | |
| Monitro cwynion yn erbyn y nodweddion gwarchodedig. | |
| Adroddiadau a chanfyddiadau ymchwil ehangach. | |
| Asesiad Effaith Cydraddoldeb sy'n seiliedig ar wasanaeth perthnasol. | |

**5.2. A oes unrhyw fylchau yn y data?**

**Oes** **Nac oes** ✓

Nodwch y bylchau:

- Ddim yn berthnasol

| |
|---|
| Sut y bydd y bylchau yn cael sylw wrth symud ymlaen?<br>• Ddim yn berthnasol |

## 6. DADANSODDI DATA

| | |
|---|---|
| **6.1 Meintiol**<br>**Crynhowch y canlyniadau dadansoddi data meintiol allweddol, gan ddarparu'r prif ystadegau allweddol.**<br>Dylid cynnwys data sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth bresennol a hefyd data sy'n ymwneud â'r cynnig. E.e. ystadegau a gynhyrchir o holiadur ymgynghori.<br><br>**Cwestiynau allweddol:**<br><br>**i)** A yw rhai grwpiau yn cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd mewn ffigurau defnyddwyr gwasanaeth? A fydd newid yn effeithio ar hyn?<br>**ii)** Sut mae lefelau boddhad yn cymharu ar draws y grwpiau nodwedd gwarchodedig? Sut fydd newid yn effeithio ar hyn? | PLASC Ionawr 2023<br><br>Ysgol Bro Caereinion<br><br>Yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd yn natganiad PLASC yr ysgol ym mis Ionawr 2023, mae'r disgyblion canlynol yn perthyn i'r grwpiau nodweddion gwarchodedig:<br><br>- Prydau ysgol am ddim: Mae 14.2% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn cyfateb i 17.9% yn y cyfnod cynradd a 13.0% yn y cyfnod uwchradd.<br><br>- ADY: Mae gan 17.5% o ddisgyblion yr ysgol anghenion addysgol ychwanegol. O'r rhain, mae 67 o ddisgyblion ar Weithredu gan yr Ysgol, mae 18 disgybl ar Weithredu gan yr Ysgol a Mwy, mae gan 3 disgybl ddatganiadau a 12 gyda chynllun datblygu unigol. Yn y cyfnod cynradd mae hyn yn cyfateb i 21 disgybl ar Weithredu gan yr Ysgol, 7 ar Weithredu gan yr Ysgol a Mwy, mae gan 1 ddatganiad ac mae gan 3 gynllun datblygu unigol (22.9%). Yn y cyfnod uwchradd mae hyn yn cyfateb i 46 disgybl ar Weithredu gan yr Ysgol, 11 ar Weithredu gan yr Ysgol a Mwy, mae gan 2 ddatganiadau ac mae gan 9 gynllun datblygu unigol (15.7%).<br><br>- Anableddau: Mae gan 17.5% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. 22.9% yn y cyfnod cynradd a 15.7% yn y cyfnod uwchradd.<br><br>- Plant sy'n Derbyn Gofal: Cofnodwyd 0% o ddisgyblion fel rhai sy'n derbyn gofal. |

| | |
|---|---|
| | - Saesneg fel Iaith Ychwanegol: Mae 0.2% o ddisgyblion yn cael eu nodi fel disgyblion SIY. 0.0% yn y cyfnod cynradd a 0.23% yn y cyfnod uwchradd.<br><br>- Ethnigrwydd: Grŵp ethnig 95.6% o ddisgyblion yr ysgol yw Gwyn Prydeinig. Mae 4.4% o'r disgyblion yn perthyn i grwpiau ethnig ar wahân i Wyn Prydeinig.<br><br><u>Ysgol Rhiw Bechan</u><br><br>Ysgol Rhiw Bechan yw'r unig ysgol arall yn nalgylch Caereinion sy'n darparu addysg drwy gyfrwng y Saesneg, felly byddai gweithredu'r cynnig yn cael mwy o effaith ar ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol hon o'i gymharu â'r ysgolion eraill.<br><br>Yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd yn natganiad PLASC yr ysgol ym mis Ionawr 2023, mae'r disgyblion canlynol yn perthyn i'r grwpiau nodwedd gwarchodedig:<br><br>- Prydau ysgol am ddim: mae 9.5% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.<br><br>- ADY: Mae gan 27.2% o ddisgyblion yr ysgol anghenion addysgol ychwanegol. O'r rhain, mae 31 disgybl ar Weithredu gan yr Ysgol, mae 4 disgybl ar Weithredu gan yr Ysgol a Mwy, mae gan 2 ddisgybl ddatganiadau ac mae gan 9 Gynllun Datblygu Unigol.<br><br>- Anableddau: Mae gan 27.2% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol.<br><br>- Plant sy'n Derbyn Gofal: Cofnodwyd 0.0% o'r disgyblion fel rhai sy'n derbyn gofal.<br><br>- Saesneg fel Iaith Ychwanegol: Mae 1.8% o ddisgyblion yn cael eu hadnabod fel disgyblion SIY.<br><br>- Ethnigrwydd: Grŵp ethnig 93.5% o ddisgyblion yr ysgol yw Gwyn Prydeinig. Mae 3.6% o'r disgyblion yn perthyn i grwpiau ethnig ar wahân i Wyn Prydeinig.<br><br>Mae'r wybodaeth uchod yn dangos y bydd cyfran o'r disgyblion sy'n perthyn i'r grwpiau nodweddion gwarchodedig yn cael eu heffeithio gan y cynnig hwn. Yn benodol: |

| | |
|---|---|
| | - Mae 14.2% o ddisgyblion Ysgol Bro Caereinion a 9.5% o ddisgyblion Ysgol Rhiw Bechan yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na chyfartaledd Powys (18.0%).<br>- Mae gan 22.9% o ddisgyblion yng nghyfnod cynradd Ysgol Bro Caereinion a 27.2% o ddisgyblion Ysgol Rhiw Bechan anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Powys ar gyfer ysgolion cynradd (20.9%).<br><br>Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'r newid yng nghategori iaith yr ysgol yn cael ei gyflwyno'n raddol, gan ddechrau gyda Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 7 ym mis Medi 2025.<br><br>Byddai'r effaith fwyaf ar ddisgyblion sy'n mynychu darpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg yn Ysgol Bro Caereinion, gan y byddai gweithredu'r cynnig yn golygu na fyddai darpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg ar gael yn yr ysgol ym mlwyddyn 7 o fis Medi 2025 ymlaen. Byddai disgyblion sy'n cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Saesneg ym mlwyddyn 6 yn yr ysgol yn dal i allu cael mynediad i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg yn yr ysgol, ond byddai'r ddarpariaeth yn cael ei diddymu'n raddol erbyn i ddisgyblion ym mlwyddyn 5 neu is gyrraedd y cyfnod uwchradd, fodd bynnag, byddent yn gallu parhau i gael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Saesneg drwy gydol y cyfnod cynradd. Byddai hyn yn effeithio ar y disgyblion hynny sy'n mynychu darpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg, gan gynnwys y rhai sy'n perthyn i grwpiau nodwedd gwarchodedig.<br><br>Byddai angen i ddisgyblion sy'n mynychu darpariaeth cyfrwng Saesneg yn Ysgol Bro Caereinion ym mlwyddyn 5 neu is naill ai drosglwyddo i ysgolion eraill i gael mynediad at ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg, neu byddai angen iddynt drosglwyddo i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg cyn iddynt gyrraedd y cyfnod uwchradd. Byddai hyn yn berthnasol i bob disgybl yr effeithir arnynt, waeth beth fo'u grwpiau nodwedd gwarchodedig. Byddai cymorth ychwanegol yn cael ei ddarparu i gefnogi unrhyw ddisgyblion sy'n dewis trosglwyddo i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i wneud hynny.<br><br>Yn ogystal ag Ysgol Bro Caereinion, bydd effaith hefyd ar ddisgyblion sy'n mynychu darpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg yn Ysgol Rhiw Bechan ar hyn o bryd - yr unig ysgol dwy ffrwd arall sy’n bwydo cyfnod uwchradd Ysgol Bro Caereinion. Byddai angen i'r disgyblion hyn naill ai drosglwyddo |

| | |
|---|---|
| | i ysgolion eraill i gael mynediad i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg neu byddai angen iddynt drosglwyddo i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg cyn iddynt gyrraedd y cyfnod uwchradd. Byddai hyn yn berthnasol i bob disgybl yr effeithir arnynt, waeth beth fo'u grwpiau nodwedd gwarchodedig. |
| **6.2 Ansoddol**<br>**Crynhowch y dadansoddiad data ansoddol allweddol, gan ddarparu themâu neu batrymau allweddol.**<br>Dylid cynnwys data sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth bresennol a hefyd data sy'n ymwneud â'r cynnig. E.e. grŵp ffocws nodweddion gwarchodedig ar y cynnig.<br><br>**Cwestiynau allweddol:**<br><br>**i)** A oes gan rai grwpiau brofiad gwahanol o ddefnyddio gwasanaethau? Sut fydd newid yn effeithio ar hyn?<br>**ii)** A yw grwpiau penodol wedi cyfathrebu unrhyw feysydd i'w gwella? A fydd newid yn effeithio ar y safbwyntiau hyn?<br>**iii)** Beth yw'r rhesymau tu ôl i rai grwpiau'n peidio â defnyddio'r gwasanaeth? Sut fydd newid yn effeithio ar y sefyllfa hon?<br>**iv)** Beth mae ymgynghoriad ar eich cynigion wedi'i ddatgelu am yr effaith ar y nodweddion gwarchodedig? | Cynhaliwyd ymgynghoriad llawn ar y cynnig. Codwyd nifer o bryderon am yr effaith ar ddisgyblion sy'n perthyn i grwpiau nodwedd gwarchodedig yn ystod yr ymgynghoriad. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:<br><br>• Pryder cyffredinol am yr effaith ar ddisgyblion ag ADY<br>• Ni fyddai disgyblion ag anghenion ychwanegol bellach yn gallu symud o'r ffrwd Gymraeg i'r ffrwd Saesneg os ydynt yn cael trafferth<br>• Pryder am yr effaith ar ddysgwyr sydd â chyflyrau fel Aspergers, ADHD, Dyslecsia, hunan-barch isel ac ati.<br>• Pryder am yr effaith ar ddisgyblion o ddiwylliannau eraill. Yn cynnwys Pwyleg, Wcreineg, Bwlgareg.<br>• Mae disgyblion o wahanol hil a disgyblion EAL wedi bod yn y ffrwd cyfrwng Saesneg yn bennaf, felly byddai'r cynnig yn cael mwy o effaith ar y grwpiau hyn<br>• Pryder am yr effaith ar geiswyr lloches yn yr ardal.<br>• Pryder am yr effaith ar deuluoedd incwm isel fyddai'n gorfod talu am drafnidiaeth i ysgolion eraill. |

## 7. Canlyniad EqIA

Yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r data ansoddol a meintiol sydd ar gael, ticiwch / cysgodwch y blwch priodol gyferbyn i ddarparu canlyniad yr asesiad EqIA.

| | |
|---|---|
| **Nid yw'r cynnig yn creu unrhyw effaith andwyol ar gydraddoldeb.**<br>[Ewch i gwestiwn 10] | |
| **Mae'r cynnig yn cyflwyno rhywfaint o effaith andwyol ar gydraddoldeb.**<br>[Ewch i gwestiwn 8] | ✓ |
| **Mae'r cynnig yn cael effaith sylweddol ar gydraddoldeb**<br>[Ewch i gwestiwn 8] | |

## 8. MEYSYDD GWELLA

| | |
|---|---|
| **Rhowch fanylion am feysydd gwan neu sensitif o'r cynnig a nodwyd gan yr asesiad.**<br><br>**i)** Pa grwpiau nodweddion gwarchodedig sy'n cael eu heffeithio'n arbennig?<br>**ii)** A fydd pobl ar incwm isel yn cael eu heffeithio?<br>**iii)** A fydd siaradwyr Cymraeg yn cael eu heffeithio? | i) Byddai'r cynnig yn effeithio ar nifer o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, disgyblion sy'n perthyn i grwpiau ethnig heblaw Gwyn Prydeinig a sydd â Saesneg fel Iaith Ychwanegol. Mae gan 22.9% o ddisgyblion cynradd Ysgol Bro Caereinion a 27.2% o ddisgyblion Ysgol Rhiw Bechan anghenion dysgu ychwanegol, dyma'r grŵp a fyddai'n cael ei effeithio fwyaf.<br><br>Gallai fod pryder am effaith y cynnig i newid categori iaith yr ysgol ar unrhyw ddisgyblion ag anableddau, gan gynnwys anghenion dysgu ychwanegol, mynychu'r ysgol nawr ac yn y dyfodol, felly y grŵp nodwedd gwarchodedig a fyddai'n cael ei effeithio fwyaf fyddai disgyblion ag anableddau.<br><br>ii) Mae 14.2% o'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Bro Caereinion a 9.5% o’r disgyblion sy’n mynychu Ysgol Rhiw Bechan yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Byddai'r cynnig yn effeithio ar y rhain.<br><br>iii) Ysgol dwy ffrwd yw Ysgol Bro Caereinion, felly byddai'r cynnig yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg, fodd bynnag y cynnig yw symud yr ysgol ar hyd y continwwm iaith o ddwy ffrwd i gyfrwng y Gymraeg, felly y disgwyliad yw y byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar siaradwyr Cymraeg. Fel sy'n ofynnol gan God Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru, bydd Asesiad Effaith ar y Gymraeg ar wahân yn cael ei gynnal. |

## 9. GWELLA CYDRADDOLDEB

| | |
|---|---|
| **9.1 Ar ôl nodi agweddau problemus i'r cynnig, sut y bydd hyn yn cael sylw nawr?**<br><br>*h.y. A ydych yn gallu cynnwys (mewn rhyw fodd) pobl o grwpiau nodwedd gwarchodedig, siaradwyr Cymraeg, pobl ar incwm isel, i'ch cynorthwyo yn y broses hon?*<br><br>**i)** A ellir lliniaru'r effaith, a sut y bydd hyn yn cael ei wneud?<br>**ii)** A oes angen addasu'r cynnig i leihau neu ddileu'r effaith hon?<br>**iii)** A ddylai'r cynnig gael ei ystyried ar gyfer cael ei ddileu, oherwydd maint yr effaith y mae'n debygol o'i chael? | Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai cyfrwng dysgu Ysgol Bro Caereinion yn newid i gyfrwng Cymraeg. Byddai hyn yn cael ei gyflwyno'n raddol flwyddyn ar ôl blwyddyn, gan ddechrau gyda disgyblion Derbyn a Blwyddyn 7.<br><br>Byddai effaith ar ddisgyblion presennol yn cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Saesneg yn y cyfnod cynradd, a fyddai naill ai angen trosglwyddo i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg neu drosglwyddo i ysgolion eraill.<br><br>Fodd bynnag, nod y cynnig yw gwella'r cyfleoedd addysgol a gynigir i holl ddisgyblion yr ardal, gan gynnwys disgyblion sy'n perthyn i'r grwpiau nodwedd gwarchodedig, trwy ddarparu mynediad at ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg dynodedig.<br><br>Nodir y gallai fod pryder am effaith y cynnig i newid categori iaith yr ysgol i gyfrwng y Gymraeg ar unrhyw ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n mynychu'r ysgol, yn cynnwys unrhyw ddisgyblion sy’n mynychu ar hyn o bryd a fyddai’n cael eu heffeithio gan y newid, ac unrhyw ddisgyblion a fydd yn mynychu’r ysgol yn y dyfodol. Er mwyn lliniaru'r pryder hwn, efallai y bydd angen i'r ysgol ddarparu cymorth gwell i ddisgyblion ag ADY yn ôl yr angen er mwyn diwallu eu hanghenion. Bydd y cyfnod ymgynghori yn gyfle i godi unrhyw bryderon am yr effaith ar ddisgyblion ag ADY, a bydd y rhain yn cael eu hystyried wrth i'r broses symud ymlaen.<br><br>Ni ystyrir bod angen addasu'r cynnig i leihau neu ddileu'r effaith, fodd bynnag, rhoddir ystyriaeth i ddiwygio'r dyddiad gweithredu a'r trefniadau trafnidiaeth amgen i liniaru'r effaith ar ddisgyblion yr effeithir arnynt.<br><br>Ni ystyrir y dylid ystyried y cynnig ar gyfer cael ei symud, oherwydd maint yr effaith y mae'n debygol o'i chael. |

**9.2 A fydd rheolaeth yr effaith fel yr amlinellwyd yn 9.1, yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Gwella Gwasanaethau?**

| | |
|---|---|
| **Bydd** □<br><br>Ychwanegu dyddiad..............<br>Cyfeiriad.................... | **Na fydd** ✓<br><br>Os na, esboniwch pam ddim:<br>**Ni nodwyd yr angen ar adeg ysgrifennu Strategaeth y Gwasanaeth** |

## 4. Asesiad Effaith ar y Gymuned

### 4.1 Ysgol Bro Caereinion

#### i) Gwybodaeth am gyfran y disgyblion o'r dalgylch a'r tu allan i'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol

**Uwchradd Gymraeg**

| Darparwr uwchradd cyfrwng Cymraeg agosaf | % o'r disgyblion |
|---|---|
| **Ysgol Bro Caereinion** | 90.6% |
| **Ysgol Llanfyllin** | 4.7% |
| **Ysgol Uwchradd Llanidloes** | 4.7% |

Mae hyn yn awgrymu bod 90.6% o ddisgyblion sy'n mynychu ffrwd Gymraeg uwchradd yr ysgol yn mynychu eu darparwr cyfrwng Cymraeg agosaf, tra bod 9.4% o ddisgyblion sy'n mynychu ffrwd Gymraeg uwchradd yr ysgol yn byw'n agosach at ddarparwyr cyfrwng Cymraeg eraill.

Yn ogystal â hyn, mae 43 o ddisgyblion sy'n byw yn agosach at Ysgol Bro Caereinion sy'n mynychu darparwyr uwchradd cyfrwng Cymraeg eraill.

**Uwchradd cyfrwng Saesneg**

| Darparwr uwchradd cyfrwng Saesneg agosaf | % o'r disgyblion |
|---|---|
| **Ysgol Bro Caereinion** | 67.3% |
| **Ysgol Uwchradd Y Drenewydd** | 22.1% |
| **Ysgol Uwchradd Y Trallwng** | 6.0% |
| **Ysgol Llanfyllin** | 4.6% |

Mae hyn yn awgrymu bod 67.3% o ddisgyblion sy'n mynychu ffrwd cyfrwng Saesneg uwchradd yr ysgol yn mynychu eu darparwr cyfrwng Saesneg agosaf, tra bod 32.7% o ddisgyblion sy'n mynychu ffrwd cyfrwng Saesneg uwchradd yr ysgol yn byw'n agosach at ddarparwyr cyfrwng Saesneg eraill.

Yn ogystal â hyn, mae 82 o ddisgyblion sy’n byw yn agosach at Ysgol Bro Caereinion yn mynychu darparwyr uwchradd cyfrwng Saesneg eraill.

**Cynradd cyfrwng Cymraeg**

| Darparwr cynradd cyfrwng Cymraeg agosaf | % o'r disgyblion |
|---|---|
| **Ysgol Bro Caereinion** | 77.0% |
| **Ysgol Cwm Banwy** | 9.2% |
| **Ysgol Gymraeg y Trallwng** | 5.7% |
| **Ysgol Rhiw Bechan** | 4.6% |
| **Ysgol Carno** | 2.3% |
| **Ysgol Pontrobert** | 1.1% |

Mae hyn yn awgrymu bod 77.0% o ddisgyblion sy'n mynychu ffrwd Gymraeg gynradd yr ysgol yn mynychu eu darparwr cyfrwng Cymraeg agosaf, tra bod 23.0% o'r disgyblion sy'n mynychu ffrwd Gymraeg gynradd yr ysgol yn byw'n agosach at ddarparwyr cyfrwng Cymraeg eraill.

Yn ogystal â hyn, mae 18 o ddisgyblion sy'n mynychu darparwyr cynradd cyfrwng Cymraeg eraill a fyddai'n agosach at Ysgol Bro Caereinion.

**<u>Cynradd cyfrwng Saesneg</u>**

| Ysgol | % o'r disgyblion |
|---|---|
| **Ysgol Bro Caereinion** | 90.6% |
| **Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Y Trallwng** | 3.1% |
| **Ysgol Rhiw Bechan** | 1.6% |
| **Ysgol Gynradd Gymunedol Aberriw** | 1.6% |
| **Ysgol Gynradd Penygloddfa** | 1.6% |
| **Ysgol Meifod** | 1.6% |

Mae hyn yn awgrymu bod 90.6% o'r disgyblion sy'n mynychu ffrwd cyfrwng Saesneg cynradd yr ysgol yn mynychu eu darparwr cyfrwng Saesneg agosaf, tra bod 9.4% o ddisgyblion sy'n mynychu ffrwd cyfrwng Saesneg yr ysgol yn byw'n agosach at ddarparwyr cyfrwng Saesneg eraill.

Yn ogystal â hyn, mae yna 27 o ddisgyblion sy'n mynychu darparwyr cynradd cyfrwng Saesneg eraill a fyddai'n agosach at Ysgol Bro Caereinion.

**ii) Clybiau ar ôl ysgol a gweithgareddau allgyrsiol a ddarperir gan yr ysgol**

Mae'r ysgol yn darparu'r clybiau ar ôl ysgol a gweithgareddau allgyrsiol canlynol:

- Pêl-droed
- Rygbi
- Pel rwyd
- Hoci
- Traws gwlad
- Badminton
- Athletau
- Côr
- Band Jazz
- Band Roc/Pop
- Gweithgareddau'r Urdd yn cynnwys ymarferion
- Clwb Gwyddoniaeth, Clwb Codio, Clwb Top Trumps
- Bibliomaniacs
- Clwb Garddio
- Clwb MFL
- Clwb Gwyddbwyll

**iii) Unrhyw gyfleusterau neu wasanaethau eraill y mae'r ysgol yn eu darparu**

Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer neu'n darparu'r cyfleusterau neu wasanaethau eraill canlynol:

- Clwb ar ôl ysgol yn y cyfnod cynradd

**iv) Defnydd arall gan gymuned o adeilad yr ysgol**

Mae'r canlynol wedi defnyddio adeilad yr ysgol:

- CFfI ar gyfer Eisteddfodau, Cyfarfodydd yr Urdd
- Rheilffordd Llanfair a'r Trallwng
- Defnyddir y neuadd chwaraeon ar gyfer perfformiadau, Opra Cymru, Eisteddfod

**v) Cysylltiadau eraill rhwng yr ysgol a'r gymuned**

Mae gan yr ysgol gysylltiadau â'r grwpiau cymunedol canlynol:

- Cysylltiadau efo'r capel ac eglwysi – ymweliadau ar gyfer gwasanaethau, ymweliadau gan yr ysgol ar gyfer gwasanaethau Diolchgarwch a chyngherddau
- Cymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd ac Eisteddfodau lleol
- Cyswllt Celf
- Gwersi offerynnol
- Cyngherddau ysgol

- Gweithgareddau CRhA
- Ffair haf
- Ymweliadau i’r llyfrgell leol
- Defnyddio’r ardal leol i ddysgu e.e. arolygon, teithiau cerdded lleol
- Ymweliadau gan yr Heddlu, Nyrs, Gwasanaeth Tân
- Profiad gwaith
- Ffeiriau gyrfaoedd
- Diwrnodau elusen
- Cymorth a mentora allanol

**vi) Os yw llety, cyfleusterau neu wasanaethau yn cael eu darparu gan yr ysgol, lle byddent yn cael eu darparu pe bai ar gau?**

Ni fydd y cynnig yn cau nac yn effeithio mewn unrhyw ffordd ar unrhyw lety, cyfleusterau neu wasanaethau a ddarperir gan Ysgol Bro Caereinion.

**vii) Pellter ac amser teithio ynghlwm â mynychu ysgol amgen o'r un categori iaith**

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai darpariaeth cyfrwng Saesneg yr ysgol yn cael ei diddymu'n raddol dros amser, gan ddechrau gyda Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 7 ym mis Medi 2025. Byddai hyn yn golygu y byddai angen i ddisgyblion sy'n dymuno cael mynediad i addysg cyfrwng Saesneg deithio i ddarpariaeth arall.

O ran darpariaeth gynradd, yr ysgolion eraill agosaf i Ysgol Bro Caereinion fyddai fel a ganlyn:

| Enw'r ysgol | Pellter o Ysgol Bro Caereinion | Amser teithio bras |
|---|---|---|
| Ysgol Meifod | 5.7 milltir | 12 munud |
| Ysgol Rhiw Bechan | 6.0 milltir | 12 munud |
| Ysgol Gynradd Gymunedol Berriew | 8.5 milltir | 15 munud |
| Ysgol Gynradd Penygloddfa | 11.0 milltir | 22 munud |

O ran darpariaeth uwchradd, byddai'r ysgolion eraill agosaf i Ysgol Bro Caereinion fel a ganlyn:

| Enw'r ysgol | Pellter o Ysgol Bro Caereinion | Amser teithio bras |
|---|---|---|
| Ysgol Uwchradd Y Trallwng | 9.3 milltir | 19 munud |
| Ysgol Uwchradd Y Drenewydd | 12.1 milltir | 28 munud |
| Ysgol Llanfyllin | 12.8 milltir | 22 munud |
| Ysgol Uwchradd Llanidloes | 23.2 milltir | 44 munud |

Yr amseroedd teithio uchod yw'r amseroedd teithio bras o Ysgol Bro Caereinion i'r ysgolion eraill, fodd bynnag byddai'r pellter o gartrefi disgyblion unigol i'r ysgolion eraill yn wahanol. Mae dadansoddiad wedi dangos na fyddai'r pellteroedd a'r amseroedd teithio i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg arall yn fwy na 45 munud i ddisgyblion cynradd neu awr i ddisgyblion uwchradd.

**viii) Sut y gellid cefnogi ymgysylltiad rhieni a disgyblion â'r ysgol amgen ac unrhyw gyfleusterau y gallai eu cynnig**

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai disgyblion yn gallu parhau i dderbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn Ysgol Bro Caereinion yn ystod y cyfnod pontio. Ni fyddai unrhyw newid o ran ymgysylltiad rhieni a disgyblion â'r ysgol ar gyfer disgyblion a fyddai'n parhau i fynychu'r ysgol.

Ar gyfer disgyblion sy'n dewis cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Saesneg mewn ysgolion eraill, byddai'r ysgolion hyn yn sicrhau bod trefniadau ar waith i gefnogi ymgysylltiad rhieni a disgyblion.

**ix) Unrhyw oblygiadau ehangach e.e. effaith ar ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus, materion diogelwch cymunedol ehangach**

Ni fyddai gweithredu'r cynnig yn effeithio ar ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus na diogelwch cymunedol.

## 4.2 Materion a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori

Derbyniwyd nifer o sylwadau yn ystod y cyfnod ymgynghori a oedd yn ymwneud ag effaith y cynnig ar y gymuned.

Rhestrir y sylwadau hyn yn llawn yn yr adroddiad ymgynghori a luniwyd mewn perthynas â'r cynnig, ynghyd ag ymateb y Cyngor i'r pwyntiau a godwyd, ac fe'u crynhoir isod hefyd:

**Sylwadau i gefnogi'r cynnig**

- Byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned.

**Sylwadau nad ydynt yn cefnogi'r cynnig**

- Pryder am yr effaith ar y gymuned:
    - Bydd y cynnig yn achosi rhaniad yn yr ardal
    - Pryder na fydd pobl eisiau byw yn yr ardal
    - Ni fyddai ysgol Gymraeg yn adlewyrchu'r gymuned ddwyieithog yn Llanfair Caereinion

- Pryder am yr effaith ar dimau chwaraeon a digwyddiadau eraill yn yr ardal
- Sylwadau eraill am effaith ar y gymuned

### 4.3 Casgliad

Gan fod y cynnig ond yn ymwneud â newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion, rhagwelir mai bach fydd effaith y cynnig ar y gymuned. Byddai darpariaeth gynradd ac uwchradd yn parhau i fod ar gael yn Llanfair Caereinion, a byddai cyfleusterau cymunedol sy'n gysylltiedig â'r ysgol yn parhau i fod ar gael.

Byddai'r effaith fwyaf ar ddisgyblion sy'n mynychu darpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg yn Ysgol Bro Caereinion ac ysgolion eraill yn y dalgylch, gan y byddai gweithredu'r cynnig yn golygu na fyddai darpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg ar gael yn yr ysgol ym mlwyddyn 7 o fis Medi 2025 ymlaen. Byddai disgyblion sy'n cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Saesneg ym mlwyddyn 6 yn yr ysgol yn dal i allu cael mynediad i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg yn yr ysgol, ond byddai'r ddarpariaeth yn cael ei diddymu'n raddol erbyn i ddisgyblion ym mlwyddyn 5 neu is gyrraedd y cyfnod uwchradd, fodd bynnag, byddent yn gallu parhau i gael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Saesneg drwy gydol y cyfnod cynradd.

Cydnabyddir y byddai'r cynnig yn arwain at deithio ychwanegol i ddisgyblion sy'n dymuno cael mynediad i addysg cyfrwng Saesneg, a gallai hefyd effeithio ar eu gallu i gael mynediad i weithgareddau ar ôl ysgol pe bai’n rhaid iddynt deithio ymhellach i fynychu darpariaeth arall.

## 5. Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Dylid darllen yr Asesiad Effaith ar y Gymraeg hon ar y cyd â'r Asesiad Effaith Integredig a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn gynharach yn y ddogfen hon.

### 5.1 Ysgol Bro Caereinion

#### i) Safonau yn y Gymraeg

Does dim asesiadau wedi cael eu cynnal ers 2019 oherwydd Covid felly does dim data i'w ddarparu.

#### ii) Gweithgareddau ar ôl ysgol / allgyrsiol sy'n darparu cyfleoedd ychwanegol i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg

Mae amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol yn cael eu darparu ar y campysau cynradd ac uwchradd. Mae rhai o'r rhain yn digwydd yn ystod y diwrnod ysgol, ac eraill yn digwydd ar ôl ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o weithgareddau yn digwydd yn ddwyieithog, gan roi cyfle i ddisgyblion gymryd rhan gan ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae'r rhain yn cynnwys y cyfle i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Urdd, yn cynnwys ymarferion ar gyfer a chymryd rhan yn yr Urdd, gyda nifer o eitemau yn llwyddo i gyrraedd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn 2023.

Darperir cyfleoedd pellach i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Urdd yn 2023/24 gan y bydd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn cael ei chynnal ym Meifod.

Hefyd, defnyddir Cymraeg mewn nifer o weithgareddau allgyrsiol eraill a gynigir yn yr ysgol, sydd wedi'u rhestru yn 4.1 yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned.

#### iii) Cyfleoedd a ddarperir gan yr ysgol i aelodau'r gymuned ddysgu Cymraeg, neu ymgymryd â gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg

Mae gweithgareddau'r ysgol a gynhelir yn Gymraeg neu'n ddwyieithog yn cael eu mynychu gan y gymuned, gan roi cyfle iddynt ddefnyddio eu Cymraeg / clywed y Gymraeg yn cael ei defnyddio. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyngherddau ysgol

- Gweithgareddau CRhA
- Ffair haf a digwyddiadau eraill
- Ffair lyfrau Cymraeg
- Cyngherddau Urdd yr ysgol

Yn ogystal, cynhelir digwyddiadau Cymraeg eraill gan sefydliadau eraill yn neuadd yr ysgol e.e. perfformiad Opra Cymru, Eisteddfodau.

**iv) Cysylltiadau eraill rhwng yr ysgol a'r gymuned Gymraeg**

Mae cysylltiadau rhwng yr ysgol a'r gymuned Gymraeg yn cynnwys y canlynol:

- Ymweliadau i a pherfformiadau yn y capel Cymraeg yn ystod cyfnod y Diolchgarwch a'r Nadolig
- Cymryd rhan yn Eisteddfodau'r Urdd yn lleol ac yn rhanbarthol
- Cynrychiolwyr yr ysgol yn mynychu pwyllgor yr Urdd
- Mae'r ysgol yn cyfrannu at Plu'r Gweunydd, y papur newydd Gymraeg lleol
- Tripiau ysgol i gynhyrchiadau Cymraeg

## 5.2 Ystyriaethau eraill

**i) P'un a fyddai'n briodol darparu cyfleusterau ychwanegol ar ôl ysgol mewn unrhyw ysgol arall er mwyn sicrhau safonau yn y Gymraeg ymhellach.**

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'r defnydd o'r Gymraeg yn cynyddu a byddai  cyfleoedd gwell i ddisgyblion ar draws pob ystod oedran gymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg, gan gynnwys gweithgareddau ar ôl ysgol.

Felly nid oes angen ystyried darparu cyfleusterau ychwanegol ar ôl ysgol mewn unrhyw ysgol arall er mwyn sicrhau safonau yn y Gymraeg ymhellach.

**ii) Sut y gellid cefnogi ymgysylltiad rhieni a disgyblion ag unrhyw ysgol amgen ac unrhyw welliant iaith penodol y mae'n ei gynnig**

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai disgyblion yn gallu parhau i dderbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn Ysgol Bro Caereinion yn ystod y cyfnod pontio. Ni fyddai unrhyw newid o ran ymgysylltiad rhieni a disgyblion â'r ysgol ar gyfer disgyblion a fyddai'n parhau i fynychu'r ysgol.

Ar gyfer disgyblion sy'n dewis cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Saesneg mewn ysgolion eraill, byddai'r ysgolion hyn yn sicrhau bod trefniadau ar waith i gefnogi ymgysylltiad rhieni a disgyblion.

**iii) Sylwadau a ddarparwyd gan Fforwm Addysg Gymraeg yr awdurdod lleol**

Mae'r canlynol yn grynodeb o sylwadau a ddarparwyd gan Fforwm Addysg Gymraeg yr awdurdod lleol mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Medi 2023:

“Mae aelodau’r Fforwm Addysg Gymraeg yn gefnogol iawn i’r cynnig i newid cyfrwng iaith Ysgol Bro Caereinion. Mae hwn yn ddatblygiad hir ddisgwyliedig, sydd wedi cael ei drafod ers sawl blwyddyn, a bydd yn sicrhau mynediad i addysg uwchradd Gymraeg gyflawn i ddisgyblion yn y rhan hwn o Bowys, gan alluogi i’r cyngor gwrdd ag un o brif amcanion y CSCA.

Byddai’r datblygiad hwn yn darparu llwybr clir trwy addysg Gymraeg i ddisgyblion yn yr ardal, o’r cyfnod meithrin hyd at ddarpariaeth uwchradd ac ôl-16. Mae darpariaeth cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg mewn Cylch Meithrin yn bodoli’n barod, a chylch Ti a Fi ar gyfer rhieni a phlant ifanc. Byddai’r Fforwm yn disgwyl i hyn arwain at dwf cyffredinol yn y niferoedd sy’n dewis addysg Gymraeg yn yr ardal, a thwf yn y niferoedd sy’n parhau i dderbyn addysg Gymraeg wrth drosglwyddo i’r cyfnod uwchradd yn arbennig.

Mae’r Fforwm yn cefnogi’r cynnig i ddechrau cyflwyno’r newid yn y cyfrwng iaith yn y cyfnod cynradd a’r cyfnod uwchradd ar yr un pryd, a fyddai’n galluogi i’r ysgol symud ar hyd y continwwm ynghynt. Bydd hyn yn sicrhau y gellir darparu mynediad i addysg uwchradd Gymraeg gyflawn ynghynt na phe bai’r cynnig yn cael ei gyflwyno yn y cyfnod cynradd yn unig.

Awgrymwyd rhai pwyntiau y bydd angen eu hystyried wrth i’r broses symud ymlaen:

- Mae angen mwy o wybodaeth ynglŷn â’r gefnogaeth trochi hwyr fydd ar gael i alluogi i ddisgyblion sy’n derbyn addysg cyfrwng Saesneg ar hyn o bryd drosglwyddo i addysg Gymraeg;
- Er mai’r cynnig yw i newid cyfrwng iaith y ddarpariaeth o fis Medi 2025, dylid sicrhau bod addysg Gymraeg yn cael ei hyrwyddo yn yr ardal yn y cyfnod cyn hynny, i annog disgyblion i ddewis addysg Gymraeg yn yr ysgol o fis Medi 2024. Gall partneriaid sy’n aelodau o’r Fforwm gefnogi gyda hyn;

- Bydd yn bwysig sicrhau perthynas cryf gyda’r ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill yn yr ardal, yn arbennig Ysgol Dafydd Llwyd ac Ysgol Gymraeg Y Trallwng, er mwyn sicrhau eu bod yn rhan o ‘deulu’ yr ysgol o’r cychwyn, i sicrhau eu bod yn teimlo’n rhan o’r datblygiad hwn, ac i annog disgyblion o’r ysgolion hyn i drosglwyddo i’r ddarpariaeth uwchradd yn Ysgol Bro Caereinion;
- Bydd angen i’r Cyngor ailedrych ar y polisi cludiant i gydfynd efo’r datblygiad hwn, i sicrhau bod y polisi yn annog mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg cyflawn;
- Bydd angen gweithio efo rhieni i sicrhau eu cefnogaeth i’r datblygiad, yn enwedig rhieni a oedd yn gobeithio y byddai datblygiad uwchradd yn ardal Dyffryn Hafren;
- Dylid annog cydweithio rhwng Ysgol Bro Caereinion ac Ysgol Bro Hyddgen, er mwyn galluogi’r ddwy ysgol i ehangu cyfleoedd i ddisgyblion a goresgyn trafferthion gyda recriwtio;
- Bydd angen ystyried unrhyw fuddsoddiad cyfalaf sydd ei angen i sicrhau ffyniant yr ysgol wrth baratoi Rhaglen Amlinellol Strategol (SOP) y Cyngor ar gyfer rhaglen 9 mlynedd rhaglen fuddsoddi Cymunedau Dysgu Cynaliadwy y Llywodraeth, y bydd angen ei baratoi dros y misoedd nesaf.”

**iv) Sut mae'r cynnig yn cyd-fynd â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod**

Mae newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion yn cyd-fynd yn llawn â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor ar gyfer 2022-32, a byddai'n gwneud cyfraniad sylweddol at weithredu'r targedau a amlinellir yn y CSCA.

Yn benodol, mae'r CSCA yn cynnwys ymrwymiad i 'Sefydlu darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg mewn o leiaf 3 ardal ym Mhowys' a'r ymrwymiadau canlynol:

*'Cwblhau’r prosesau statudol sydd eu hangen i ddarparu mynediad i ddarpariaeth uwchradd sy'n cwrdd â diffiniad y categori 'cyfrwng Cymraeg' mewn 2 leoliad arall ym Mhowys. Bydd hyn yn canolbwyntio ar Ysgol Bro Caereinion sydd newydd ei sefydlu ac ardal Ysgol Calon Cymru.'*

Mae'r CSCA hefyd yn cynnwys ymrwymiad i 'Gefnogi ysgolion cynradd dwy ffrwd/cyfrwng Saesneg i symud ar hyd y continwwm iaith fel y gallant ddarparu addysg drochi cyfrwng Cymraeg i blant tan eu bod yn saith neu unarddeg oed', ac mae'n cynnwys ymrwymiad i ddatblygu mwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn nifer o ddalgylchoedd, gan gynnwys Llanfair Caereinion.

Yn ogystal, byddai newid categori iaith yr ysgol yn bodloni amcan y Cyngor i 'Symud ysgolion ar hyd y continwwm iaith' fel yr amlinellir yn y Strategaeth ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys.

**v) Pa effeithiau cadarnhaol neu andwyol fyddai'r cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

Byddai'r cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion yn cael effaith gadarnhaol ar bobl i ddefnyddio'r Gymraeg a byddai'n cyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

**vi) Unrhyw gamau gweithredu yn y dyfodol y bydd eu hangen o ganlyniad i'r newid i barhau i gydymffurfio â'r cynllun neu gyrraedd targedau yn y cynllun.**

Byddai'r cynnig i newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Felly, ni ragwelir y bydd angen cymryd unrhyw gamau yn y dyfodol er mwyn parhau i gydymffurfio â'r cynllun na'i dargedau.

Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod, os caiff y cynnig ei weithredu, bydd angen mynd ati i fonitro cynnydd wrth weithredu'r newid i gategori iaith Ysgol Bro Caereinion, yn enwedig gan ei fod yn digwydd yn raddol, er mwyn sicrhau ei lwyddiant.

## 5.3 Materion a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori

Derbyniwyd nifer o sylwadau yn ystod y cyfnod ymgynghori a oedd yn ymwneud ag effaith y cynnig ar y Gymraeg.

Rhestrir y sylwadau hyn yn llawn yn yr adroddiad ymgynghori a luniwyd mewn perthynas â'r cynnig hwn, ynghyd ag ymateb y Cyngor i'r pwyntiau a godwyd, ac fe'u crynhoir isod hefyd:

### Sylwadau i gefnogi'r cynnig

- Bydd y cynnig yn arwain at ethos Cymraeg cryfach yn yr ysgol
- Byddai gwell sgiliau Cymraeg yn cael effaith gadarnhaol ar y cyfleoedd sydd ar gael i ddisgyblion yn y dyfodol
- Byddai'r cynnig yn darparu cyfartaledd i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg
- Mae'r cynnig yn adlewyrchu'r cynnydd yn nifer y disgyblion cyfrwng Cymraeg yn yr ardal
- Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg yn yr ardal
- Sylwadau am fodelau cyflenwi cyfrwng Cymraeg

- Mae'r cynnig yn cefnogi gweithredu dyhead Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

**Sylwadau nad ydynt yn cefnogi'r cynnig**

- Pryder y byddai disgyblion cyfrwng Saesneg yn cael llai o gysylltiad â'r Gymraeg
- Pryder y byddai effaith negyddol ar y Gymraeg

## 5.4 Casgliad

Byddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, oherwydd ymhen amser, byddai'n sicrhau y byddai pob disgybl yn nalgylch Llanfair Caereinion yn cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg, ac yn dod yn gwbl ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg yn hyderus, a chyfrannu at Strategaeth Llywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Byddai hefyd yn darparu mynediad i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg ddynodedig yn yr ardal, sydd ddim ar gael ar hyn o bryd, a fyddai’n cwrdd â dyheadau CSCA y Cyngor.